

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
11/9/2017

Presennol: Emyr Jones, (Cadeirydd), Tyly Roberts, (Is Gadeirydd), Eleri Jones, Geraint Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Gwyn Roberts.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 3/7/17.
5. Materion yn codi o gyfarfod 3/7/17: Diolchwyd am greu'r gorlan newydd yn y maes parcio a chytunwyd i ofyn i Alan Jones Evans geisio cael mwy o finiau ail-gylchu o fewn y gorlan.
6. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** derbyniwyd a rhannwyd adroddiad cynhwysfawr. Nodwyd nad oedd ochrau'r ffordd wedi eu torri o gwbl o Gae Glas i fyny. Cytunwyd gyda sylwadau'r Cynghorydd fod y torri gwair a ddigwyddodd wedi bod yn hwyr yn y flwyddyn ac yn siomedig o ran safon.
7. **Materion ariannol:**
 - a. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol.
 - b. Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol wedi ei harchwilio gan BDO i'r Cyngor . Cymeradwyodd y Cyngorwyr y ffurflen a'i derbyn. Diolchwyd am waith trylwyr John Roberts yr Archwilydd Mewnol eleni eto a nodwyd ei fodlonrwydd gyda thrylwyder cofnodion ariannol y Cyngor.
 - c. Adroddodd y Clerc fod sic wedi ei hanfon i bwrcasu 2 di-ffib.
 - d. Nodwyd derbyn ail hanner y Praesept.
 - e. Trafodwyd anfoneb Cyngor Gwynedd am yr etholiadau a chytunwyd i holi ymhellach gan fod y swm yn uwch o lawer na Chynghorau cyfagos.
8. **Y Fynwent:**
 - a. Derbyniwyd adroddiad ar waith wedi ei wneud yn y fynwent gan y brodyr Evans a diolchwyd iddynt.
 - b. Cytunwyd i ofyn i berson lleol roi llwyth o gerrig ar lawr yn y gorlan tu nol i'r gât. Cytunwyd i ofyn i Alan Jones Evans sicrhau bin gwyrdd i ddal gwastraff blodau yn y fan (i'w wagio'n achlysurol).
 - c. Derbyniwyd llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri yn cyfeirio at fwriad y perchnogion i sicrhau diogelwch yr eglwys yn Llangywer. Cytunwyd i anfon at Barc Cenedlaethol Eryri i adrodd nad oes gwaith wedi ei ddechrau na'i gyflawni.

9. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** Tynnwyd sylw Cyngorydd Gwynedd at y coed sy'n tyfu dros y ffordd o gwmpas Maes Meillion, gordyfiant wrth bont Rhosygwaliau ac mewn mannau ar ffordd Hirnant.
10. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniodd am yr ymdrechion i gadw toiledau cyhoeddus Y Bala ar agor. Adroddwyd fod y llwybr wrth yr orsaf wedi ei thorri. Mae pob un o ystafelloedd Canolfan Henblas wedi eu llenwi ar hyn o bryd.
11. **Cynllunio:** Cadarnhawyd penderfyniadau'r haf:
- NP5/70/LB10A a NP5/70/LB10A** sef mynegi pryder fod gwaith wedi ei wneud heb ganiatad ar adeilad sydd wedi ei gofrestru.
 - NP5/70/114E** sef cymeradwyo codi adeilad amaethyddol yn Llechwedd Ystrad.
 - NP5/70/51** sef cais i ddiddymu Amod 2 , Parc Carafanau Pen y Bont. Mynegwyd dymuniad fod pob maes carafanau yn cadw at reolau'r Parc Cenedlaethol yn ddiwahân.
12. **Gohebiaeth:**
- Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd gwybodaeth fod dogfennau perthnasol i Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn (2011 – 2026) i'w gweld yn Siop Gwynedd, Penarlâg, Dolgellau ac ar y we www.gwynedd.llyw.cymru/cdli
 - Parc Cenedlaethol Eryri:** Derbyniwyd copi o gyflwyniad a roddwyd i Gynghorwyr.
 - Llywodraeth Cymru:** Derbyniwyd nodyn atgoffa fod angen "Datganiad ar effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru" ar bob cais cynllunio sydd ar gyfer adeilad cofrestredig.
 - Un Llais Cymru:** Derbyniwyd gwybodaeth am hyfforddiant "Deall y Gyfraith" 13/9/17 a "Cyfarfod y Cyngor" ar 18/10/17 yn Y Bala. Cytunodd Tyly Roberts i fynychu un mis Tachwedd.
- Y Pwyllgor Ardal:** Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod dydd Mawrth 26/9/17 yn y Llyfrgell Rydd am 7.00pm
- Eraill:** Nodwyd derbyn gwahoddiad i roi sylwadau ar Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych.

Amser gorffen 9.00pm. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Tachwedd 13, 2017